AWDURDOD TÂN AC ACHUB

GOGLEDD CYMRU

CYNLLUN CYFUNOL
I LEIHAU RISG A GWELLA

Parhad i
2015-16

Diweddarwyd a chyhoeddwyd Mawrth 2015

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Tân ac Achub Gogledd Cymru	3
Tân ac Achub Gogledd Cymru – Staffio	4
Tân ac Achub Gogledd Cymru dros y deng mlynedd ddiwethaf	6
Cynlluniau'r Gyllideb ar ôl 2013/14	12
Cynlluniau'r Gyllideb ar ôl 2014/15	15
Asesiad Archwilydd Cyffredinol Cymru	16
Problemau penodol y mae'r Awdurdod yn ceisio eu datrys	17
Ymgynghoriad cyhoeddus – eich barn chi	18
Amcanion Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2015/16	23
Cynlluniau'r Gyllideb ar ôl 2013/14	25
Atodiad	31

Cyflwyniad

Eleni, mae'r Cynllun Gwella blynyddol yn canolbwyntio ar amcanion gwella penodol ar gyfer 2015-16.

Mewn cyfnod o her ariannol eithriadol, mae Awdurdod Tân ac Achub wedi ymrwymo i barhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i atal tân, gwasanaethau gorfodaeth diogelwch tân, ac ymateb brys i ystod o ddigwyddiadau, gan gynnwys tân, llifogydd a damweiniau traffig ar y ffyrdd.

Mae'r Awdurdod yn parhau wedi ymrwymo i chwarae ei ran yn meithrin cymunedau cryfach a mwy diogel, ond mae hefyd yn cydnabod y bydd y sefyllfa ariannol yn y dyfodol yn golygu bod angen llawer mwy o hyblygrwydd a dyfeisgarwch i gynnal gwasanaethau.

Mae'r awdurdodau tân ac achub wedi bod yn hynod lwyddiannus yng Nghymru wrth leihau nifer yr achosion o dân, ond ni ellir cymryd hyn yn ganiataol, ac nid ydym yn bwriadu colli golwg ar ba mor bwysig yw atal tanau er mwyn lleihau lefel y galw ar wasanaethau tân ac achub yn ogystal ag ar rannau eraill o'r sector cyhoeddus, megis y gwasanaeth iechyd.

Bu'r Awdurdod yn ymgynghori ar ei amcanion gwella drafft yn chwarter olaf 2014, ac mae'n ddiolchgar am yr ymatebion lu a ddaeth i law. Mae'r ddogfen hon nawr yn nodi'r amcanion gwella strategol y cytunwyd arnynt ar gyfer 2015-16.

Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

Tân ac Achub Gogledd Cymru



Yng Nghymru, caiff y gwasanaethau tân ac achub eu darparu drwy Awdurdodau Tân ac Achub Cyfunol.

Un o dri awdurdod tân ac achub cyfunol yng Nghymru yw **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**. Cafodd y rhain eu sefydlu yn 1996 fel rhan o ad-drefnu llywodraeth leol, ac roeddent yn disodli'r wyth hen frigâd dân a oedd yng Nghymru.

Mae **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** yn cynnwys 28 o gynghorwyr sir, a'r rheini wedi eu henwebu gan y chwe awdurdod unedol yng Nghymru: Cyngor Sir Ynys Môn (3); Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (5); Cyngor Sir Ddinbych (4); Cyngor Sir y Fflint (6); Cyngor Gwynedd (5); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (5). Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu ar sail poblogaeth.

Pennaeth **Gwasanaeth Tân ac Achub** Gogledd Cymru yw'r Prif Swyddog Tân, ac ef sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y Gwasanaeth o ran arweiniad strategol, rheolaeth gorfforaethol a gweithrediadau. Mae hefyd yn darparu cyngor proffesiynol i'r Awdurdod.

Trowch at yr Atodiad i'r ddogfen hon am fanylion am ddeddfwriaeth benodol a gwybodaeth arall.

Tân ac Achub Gogledd Cymru – Staffio (Mawrth 2014)







Tân ac Achub Gogledd Cymru – Staffio

Mae nifer y swyddi a nifer y staff a gyflogir wedi newid dros y blynyddoedd diweddar. Mae'r graff isod yn dangos i ba raddau y bu newidiadau rhwng Mawrth 1999 a Mawrth 2014.



Mae pwysau ariannol yn ddiweddar wedi gorfodi lleihad ym maint y gweithlu, ond drwy gynllunio'n ofalus bu modd gwneud hynny drwy gyfraddau ymadael naturiol a diswyddiadau gwirfoddol.

Mae newidiadau yn strwythur y sefydliad wedi golygu mynd ati'n fanwl i ystyried paru gwaith gyda'r rhannau mwyaf priodol o'r gweithlu, gan gadw mewn cof beth yw'r sgiliau a beth yw'r telerau ac amodau gwasanaeth. Mae hyn wedi golygu trosglwyddo swyddi diogelwch tân cymunedol a busnes i staff anweithredol.

Tân ac Achub Gogledd Cymru dros y deng mlynedd diwethaf

Mae gan Ogledd Cymru raglen amlwg o ddarparu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, ac mae hyn wedi golygu bod dros 200,000 o archwiliadau wedi eu cynnal yn rhad ac am ddim i gartrefi yn yr ardal ers 2004.



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
GTAGC	2756	2257	16176	26504	31180	32802	36905	28472	22201	26622

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14[1] gan Lywodraeth Cymru mae un larwm mwg o leiaf, a hwnnw'n gweithio, mewn **94%** o gartrefi yng Ngogledd Cymru.

Dim ond lleiafrif y cartrefi lle bu tân oedd heb larwm mwg.



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
GTAGC	36.88	32.7	29.2	23.7	24.5	25.14	16.45	15.09	14.6	16.18

[1] Tabl 33

Tân ac Achub Gogledd Cymru dros y deng mlynedd ddiwethaf

Mae'r strategaeth atal tanau yng Ngogledd Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn yr ardal wedi gostwng yn y rhan fwyaf o flynyddoedd yn y degawd diwethaf, ac eithrio 2006-07 a 2013-14. Yn gyffredinol mae'r nifer wedi gostwng o 4,414 i 2,416.



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
NWFRS	65.64	61.54	68.07	54.51	50.42	49.23	48.07	45.98	34.02	34.99

Mae nifer y prif danau (hynny yw, y tanau mawr sy'n ymwneud ag eiddo a/neu anafusion) wedi gostwng o ryw 35 yr wythnos i ryw 21 yr wythnos (o 1,827 i 1,117).



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
NWFRS	27.17	25.85	25.79	23.02	22.11	21.69	19.62	18.87	16.55	16.18

Tân ac Achub Gogledd Cymru dros y deng mlynedd ddiwethaf

Mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru hefyd wedi gostwng dros y degawd diwethaf, er bod cyfradd y gostyngiad wedi bod yn afreolaidd, a cynnydd wedi bod mewn pedair o'r deng mlynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae nifer y tanau hyn wedi gostwng o 525 i 479.



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
GTAGC	16.46	16.38	16.85	16.98	16.04	15.25	14.86	14.95	14.26	14.98

Yn yr un modd, mae nifer y tanau sy'n digwydd mewn eiddo annomestig wedi gostwng, o gyfanswm blynyddol o 605 i 115.



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
GTAGC	13.07	12.57	12	9.17	9.54	9.38	8.35	7.82	5.3	4.1

Tân ac Achub Gogledd Cymru dros y deng mlynedd ddiwethaf

Drwy gydweithio'n bwrpasol a llwyddiannus gyda Heddlu Gogledd Cymru, mae nifer yr achosion o losgi bwriadol wedi gostwng hefyd. Am bob 10,000 o bobl, bu llai yn gyson o danau bwriadol yng Ngogledd Cymru nag mewn rhannau eraill o Gymru.



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
Eilaidd	26.23	24.09	25.32	19.32	14.72	15.40	15.53	14.57	7.95	7.93
Prif Danau	10.26	9.91	10.73	7.76	7.91	7.04	5.44	5.33	4.14	3.51

Drwy herio'r rhai sy'n galw 999 ac sy'n cael eu hamau o wneud galwadau brys ffug, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi llwyddo i ostwng nifer y galwadau ffug maleisus a wneir i'w Ganolfan Reoli. O blith y rhai sydd yn cael eu gwneud, mae staff y Ganolfan Reoli wedi llwyddo'n gyson i adnabod bron i 80% fel rhai maleisus cyn troi allan yn ddiangen at argyfwng nad oedd yn bod. Yn 2004-05, fe aeth y Gwasanaeth at ryw 5 o alwadau ffug maleisus o'r fath bob wythnos. Erbyn 2013-14 roedd hyn wedi gostwng i lai na 2.



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
Mynychwyd	271	236	164	154	170	140	118	133	106	77
Ni fynychwyd	659	623	553	498	375	423	373	405	367	305

Tân ac Achub Gogledd Cymru dros y deng mlynedd ddiwethaf

Mae nifer y bobl sy'n marw oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru wedi amrywio rhwng tri a thri ar ddeg bob blwyddyn. Mae rhai pobl yn marw oherwydd tanau a gychwynnwyd yn fwriadol (a fyddai'n cynnwys hunanladdiad a llosgi bwriadol), ond mae'r rhan fwyaf yn rhai sy'n dioddef tanau damweiniol yn eu cartrefi.

Dyma ffigyrau marwolaethau tân yng Ngogledd Cymru yn Chwefror 2015:

	O danau damweiniol	O danau damweiniol mewn cartrefi	O danau bwriadol	O danau bwriadol mewn cartrefi	Cyfanswm marwolaethau oherwydd tân
2004-05	3	3	1	0	4
2005-06	6	5	1	0	7
2006-07	10	10	3	0	13
2007-08	8	8	2	1	10
2008-09	4	4	0	0	4
2009-10	7	7	2	2	9
2010-11	10	10	0	0	10
2011-12	8	6	0	0	8
2012-13	3	3	5	5	8
2013-14	3	3	0	0	3
	62	**59**	**14**	**8**	**76**

Tân ac Achub Gogledd Cymru dros y deng mlynedd ddiwethaf

Mae nifer yr anafiadau oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru yn dilyn tueddiad cyffredinol am i lawr, ond mae cyfradd y gostyngiad yn yr anafiadau tân wedi bod yn anghyson ac yn siomedig o arafach na chyfradd y gostyngiad yn nifer y tanau.



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
GTAGC	163	85	72	80	111	69	97	64	60	101

Bydd deall yr hyn sy'n achosi'r gyfradd ymddangosiadol uwch o anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau yng Ngogledd Cymru yn un o'n camau gweithredu ar gyfer Amcan 1 yn 2015/16.



	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
GTAGC	116	51	36	52	66	37	53	34	45	58

Materion Ariannol ac Arbedion

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei ariannu'n bennaf gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru, a hynny gan gyfateb i'w poblogaethau. Ar hyn o bryd mae ei gyllideb refeniw flynyddol wedi ei gosod ar £32 miliwn.

Yng Ngogledd Cymru, fe wnaeth y gost y pen o'r boblogaeth am wasanaethau cyngor sir gynyddu rhwng £257 a £495 yn y blynyddoedd rhwng 2006-07 a 2014-15. Ond yn ystod yr un cyfnod, £3 yn unig y cynyddodd y gost y pen o'r boblogaeth am wasanaethau tân ac achub.

Yn y blynyddoedd diweddar mae'r gost y pen o'r boblogaeth wedi aros ar £46.

£	Cyfraniad 2011/12	Cyfraniad 2012/13	Cyfraniad 2013/14	Cyfraniad 2014/15	Cyfraniad 2015/16
Ynys Môn	3,236,545	3,219,270	3,216,231	3,198,669	3,200,523
Gwynedd	5,588,685	5,525,827	5,507,985	5,588,255	5,602,787
Conwy	5,240,568	5,206,959	5,198,570	5,283,704	5,289,891
Sir Ddinbych	4,549,039	4,569,316	4,593,630	4,342,155	4,360,740
Sir y Fflint	7,051,716	6,981,590	6,955,089	7,018,721	7,033,548
Wrecsam	6,266,101	6,269,049	6,300,506	6,340,507	6,398,354
CYFANSWM	**31,932,654**	**31,772,011**	**31,772,011**	**31,772,011**	**31,885,843**
Cost y pen o'r boblogaeth	**47**	**46**	**46**	**46**	**46**

Cynllun cyllideb 3 blynedd gyntaf yr Awdurdod

Rhoddodd y dirywiad economaidd cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn Nhachwedd 2010, arwydd o lefel y toriadau i wasanaethau cyhoeddus oedd i'w disgwyl. Yn Rhagfyr y flwyddyn honno, penderfynodd yr Awdurdod rewi'r gyllideb flynyddol ar gyfer rhedeg y Gwasanaeth ar £32 miliwn am y tair blynedd nesaf.



Ystyr hyn mewn gwirionedd oedd y byddai unrhyw gynnydd mewn costau yn y blynyddoedd hynny (ee oherwydd chwyddiant neu gynnydd mewn costau tanwydd) wedi gorfod cael ei dalu o'r gyllideb gyfredol: felly bob blwyddyn byddai'n rhaid tynnu tua £800,000 o rai rhannau o'r Gwasanaeth er mwyn talu am gynyddiadau nad oedd modd eu hosgoi.

Erbyn diwedd y drydedd flwyddyn (2013/14), roedd £2.45 miliwn o arbedion wedi eu sicrhau. Roedd y gost y pen o'r boblogaeth wedi gostwng o £47 i £46, ac roedd pump o'r chwe chyngor sir yn cyfrannu llai am wasanaethau tân ac achub yn 2013/14 nag a wnaethant ei gyfrannu dair blynedd ynghynt yn 2010/11.

Materion Ariannol ac Arbedion

Sut y cafwyd yr arbedion yn ystod y cynllun cyllideb 3 blynedd gyntaf?

Yn 2011/12 (Blwyddyn 1)

- £200,000 wedi ei dorri o **linellau penodol yn y gyllideb**, gan ddod â rhai i ben yn llwyr neu eu cwtogi.
- £50,000 wedi ei dorri o'r **gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol**.
- £90,000 wedi ei dorri o'r gyllideb **Staff Cefnogol**.
- £460,000 wedi ei dorri o'r gyllideb **Rheolwyr Gweithredol** drwy ostwng nifer y swyddogion.
- £30,000 wedi ei dorri o gyllideb yr **Ystafell Reoli** drwy ailstrwythuro'r trefniadau staffio.

Yn 2012/13 (Blwyddyn 2)

- Cafodd **llinellau unigol yn y gyllideb** eu torri neu eu lleihau eto, gan ryddhau £150,000.
- £50,000 arall wedi ei dorri o'r gyllideb **Diogelwch Tân Cymunedol**.
- £90,000 arall wedi ei dorri o'r gyllideb **Staff Cefnogol**.
- £500,000 wedi ei ryddhau o gyllideb cyflogau **Diffoddwyr Tân Gweithredol** drwy newid y ffordd y caiff eu shifftiau eu cylchrestru, felly nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn wedi ei leihau 10%.

Yn 2013/14 (Blwyddyn 3)

- Cafodd **llinellau unigol yn y gyllideb** eu torri neu eu lleihau am y trydydd tro, gan ryddhau £70,000 pellach.
- £50,000 arall wedi ei dorri o'r gyllideb **Diogelwch Tân Cymunedol**.
- £180,000 arall wedi ei dorri o'r gyllideb **Staff Cefnogol**.
- £500,000 pellach wedi ei ryddhau o gyllideb **Diffoddwyr Tân Gweithredol** drwy newid y ffordd y caiff eu shifftiau eu cylchrestru (fel uchod).

Roedd rhan fawr o'r arbedion yn golygu lleihau'r gweithlu 9% yn gyffredinol, gan gynnwys rheolwyr, diffoddwyr tân, staff diogelwch cymunedol a staff cefnogol. Er gwaethaf y gostyngiadau hyn, roedd yr Awdurdod wedi gallu parhau i gyflawni ei amcanion yn llwyddiannus.

Y Cynlluniau o ran y Gyllideb ar ôl 2013/14

Yr ail gynllun y gyllideb 3 blynedd (arfaethedig)

Wrth ddod i ddiwedd cynllun y gyllideb 3 blynedd gyntaf, roedd yn rhaid i'r Awdurdod benderfynu beth i'w wneud am y tair blynedd nesaf. Gan ei fod eisoes wedi lleihau'r costau rhedeg gwyddai mai'r unig ffordd i sicrhau mwy o arbedion fyddai drwy wneud toriadau y byddai'r cyhoedd yn sylwi arnynt.

Lansiodd yr Awdurdod ymgynghoriad cyhoeddus ym Medi 2013 gan rybuddio y byddai'n golygu gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau tân ac achub oherwydd y byddai rhewi'r gyllideb tan 2016/17 yn golygu torri £3.3 miliwn o'r gyllideb yn ychwanegol at y £2.45 miliwn a dynnwyd allan dros gyfnod y cynllun cyllideb 3 blynedd gyntaf.

Ar y pryd, nid oedd yr Awdurdod yn bwriadu cychwyn ar raglen o doriadau, ond roedd yn gwbl ymwybodol i'r pwysau ar bob gwasanaeth cyhoeddus i gyfyngu ar ei wariant, ac nad oedd awdurdodau tân ac achub yn rhydd rhag effeithiau'r hinsawdd ariannol llym. Felly, ymrwymodd yr Awdurdod y byddai, er mwyn helpu i ddiogelu cyllidebau'r cynghorau sir, yn cyfyngu ar unrhyw gynnydd yn eu cyfraniadau ariannol i uchafswm a oedd yn cyfateb i £1 y pen o'r boblogaeth y flwyddyn yn ychwanegol.

Tuag at ddiwedd 2013, penderfynodd yr Awdurdod gadw lefel bresennol y ddarpariaeth. Ond oherwydd effaith setliad ariannol llywodraeth leol (faint y gallai'r cynghorau sir ddisgwyl ei gael o arian canolog Llywodraeth Cymru) a'r gostyngiad yng nghyllid y cynghorau sir, dewisodd yr Awdurdod strategaeth amgen, sef rhewi'r gyllideb am bedwaredd flwyddyn (2014/15) a defnyddio ei gronfeydd ariannol wrth gefn i ymorol am unrhyw ddiffyg a thrwy hynny osgoi cyflwyno'r toriadau mawr a fyddai'n angenrheidiol fel arall.

Fodd bynnag, dim ond am un flwyddyn y byddai'r opsiwn hwn yn gynaliadwy, a byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad ar gyfer y blynyddoedd dilynol er mwyn ystyried y cydbwysedd rhwng y pwysau ar y gyllideb, darparu gwasanaethau, a'r risg i'r cyhoedd.

Y Cynlluniau o ran y Gyllideb ar ôl 2013/14

Gan gadw at ei ymrwymiad i gyfyngu unrhyw gynnydd yng nghyfraniadau ariannol y cynghorau sir i uchafswm sy'n cyfateb i £1 y pen y flwyddyn yn ychwanegol, penderfynodd yr Awdurdod godi cynnydd bychan iawn yn unig ar gyfer 2015/16 fel y byddai cyfanswm y cyfraniad yn dal i gyfateb i lai na £46 y pen o'r boblogaeth.

Er mwyn amsugno rhywfaint o'r £628,000 o gynnydd anocheladwy a amcangyfrifir yn y costau yn 2015/16, penderfynodd yr Awdurdod wneud yr arbedion drwy wneud y canlynol:

- rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau anstatudol achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr, gan arbed tua £16,000 y flwyddyn;
- mynd at lai fyth o alwadau diangen o ganlyniad i larymau tân awtomatig, gan arbed tua £25,000 y flwyddyn;
- lleihau rhagor ar nifer swyddi rheolwyr gweithredol (o 32 i 28), gan arbed tua £250,000 y flwyddyn;

a neilltuo £223,168 o'i gronfeydd wrth gefn i gwrdd â'r diffyg.

	£	
Y Gyllideb fel y blynyddoedd blaenorol	31,772,011	
Cynnydd nad oes modd ei ragweld yn y costau yn 2015/16	+ 628,000	
Arbedion i'w gwneud yn 2015/16	-291,000	
Cyfanswm y gofyniad o ran y gyllideb ar gyfer 2015/16	**32,109,011**	
Cyfraniadau gan gynghorau sir		31,885,843
Wedi ei ddyrannu o gronfeydd wrth gefn		+223,168
Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer 2015/16		**32,109,011**

Asesiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Yn ystod 2014 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'r modd yr oedd yn cyllidebu ac yn cyflawni mewn perthynas â chynlluniau ariannol. Roedd yr asesiad yn ystyried a oedd gan yr Awdurdod ddull cadarn yn ei le i reoli heriau'r gyllideb ac i sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn ei alluogi i barhau i weithredu cyhyd ag y gellir rhagweld. Daeth yr asesiad i'r casgliad canlynol:

> "Mae gan yr Awdurdod drefniadau ffeithiol ar gyfer rheolaeth ariannol, ac nid oes unrhyw ddiffygion dybryd.
>
> Mae gan yr Awdurdod hanes da o reoli'r gyllideb yn effeithiol a sicrhau trefniadau i weithredu o fewn ei gyfyngiadau ariannol."

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud rhai cynigion i gynorthwyo'r Awdurdod i gryfhau ei drefniadau cynllunio ariannol ar gyfer y dyfodol:

1. cyhoeddi Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar ei wefan;
2. sefydlu polisi clir mewn perthynas â chodi tâl am wasanaethau a chreu incwm;
3. sefydlu cysylltiadau mwy pendant rhwng amcanion gwella a chynlluniau ariannol;
4. cytuno ar bolisi ysgrifenedig ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

Felly, bydd yr Awdurdod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r pedwar amcan hwn yn ystod 2015/16.

Problemau penodol y mae'r Awdurdod yn ceisio eu datrys

Yn ei Gynllun Gwella y llynedd, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2014, fe wnaeth yr Awdurdod nodi ei gynigion ar gyfer y modd y bydd yn datblygu Amcanion Gwella 2015-16. Drwy gyfres o gyfarfodydd, bu Aelodau'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth i ganfod beth yw'r prif flaenoriaethau strategol ar gyfer yr Awdurdod.

Drwy ganfyddiadau'r gweithgor hwn, fe wnaeth yr Awdurdod gydnabod y bydd, yn y dyfodol, yn debygol o barhau i wynebu'r un problemau ag a nodwyd eisoes, ond gyda'r pwysau ychwanegol o ragolygon ariannol tywyll ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

1. Cynnydd yn y galw lleol am wasanaethau



2. Cyfradd y galw am wasanaethau yn mynd yn fwyfwy anodd ei ragweld

3. Llai o arian ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau

Problemau penodol y mae'r Awdurdod yn ceisio eu datrys

1. Cynnydd yn y galw lleol am wasanaethau

Mae nifer yr anafiadau oherwydd tân yng Ngogledd Cymru yn gostwng yn raddol (trowch at yr adran flaenorol ar berfformiad a gweithgarwch), ond oherwydd y newidiadau demograffig a ragamcenir yng Ngogledd Cymru, mae'n edrych yn debygol y bydd y galw am atal tanau ac anafiadau mewn anheddau yn cynyddu.

Datgelodd prosiect ymchwil yn 2006 i achosion marwolaethau tân yng Ngogledd Cymru fod 7 ffactor sydd, o'i cyfuno, yn gwneud unigolion yn fwy agored i ddioddef tân.

Yn ystod yr ymgynghoriad yn 2013 ar Amcanion Gwella 2014/15, daeth i sylw'r Awdurdod fod rhai pobl – yn enwedig pobl ag anableddau – yn anfodlon gyda'r term Saesneg 'vulnerable person' oherwydd fe allai roi'r argraff anghywir.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn defnyddio'r term hwn fel disgrifiad o'r hyn sy'n gwneud rhai pobl yn flaenoriaeth uwch i gael cefnogaeth a chyngor er mwyn lleihau'r siawns y byddant yn cael tân mewn annedd. Po fwyaf o ffactorau sydd, y mwyaf y risg y byddant yn dioddef tân mewn annedd oni bai eu bod yn cymryd mesurau ychwanegol i wrthbwyso'r ffactorau hynny. Mae strategaeth atal tanau'r Awdurdod wedi ei strwythuro o amgylch ceisio ffyrdd o wrthbwyso neu gael gwared ar effeithiau cymaint o'r ffactorau hynny ag y bo modd, ac felly wneud yr unigolion yn llai agored i niwed.

Problemau penodol y mae'r Awdurdod yn ceisio eu datrys

Dyma'r ffactorau a ganfuwyd sy'n gwneud pobl yn fwy agored i niwed yn ôl yr ystadegau:

- bod ar eu pen eu hunain ar adeg y tân;
- ymddygiad anarferol neu benodol, megis ysmygu yn y gwely, coginio dan ddylanwad alcohol, neu gasglu obsesiynol a byw mewn annibendod llwyr;
- bod heb larwm mwg sy'n gweithio yn yr annedd;
- bod yn agored i ffactorau sydd fel arfer yn gysylltiedig â henaint, megis llai o symudedd, dirywiad yn ymateb y synhwyrau, a llai o sylweddoliad o gyfyngiadau corfforol; neu bod â llai o sylweddoliad o beryglon tân, ymateb yn amhriodol i dân a dibynnu'n fawr ar oedolion, fel y byddai rhai ifanc iawn yn debygol o wneud;
- bod dan ddylanwad alcohol neu rai cyffuriau sy'n amharu ar lefelau ymwybyddiaeth, cyflymder ymateb a gwneud penderfyniadau;
- byw mewn eiddo ar rent;
- bod ag anabledd sy'n cyfyngu ar symudedd a/neu ymateb i dân.

Mae'r rhagolygon ar gyfer Gogledd Cymru yn dangos y bydd y ffactorau cyfrannol hyn yn parhau i olygu bod angen strategaeth gynhwysfawr i atal tanau yn yr ardal. Yn benodol:

- ymddengys fod nifer y cartrefi am barhau i gynyddu, gyda chyfran uwch o'r cartrefi yn rhai lle nad oes ond un person yn byw. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd fod rhywun ar ei ben ei hun pan fo tân yn digwydd, ac yn cynyddu'r galw am larymau mwg.
- mae mwy o bobl yn byw yn hŷn, ond yn gysylltiedig â hynny mae rhagolygon y bydd mwy o bobl yn byw gyda dementia, a bydd mwy o bobl yn cael gofal yn eu cartrefi eu hunain.
- rhagwelir y bydd nifer y plant yn codi yn y tymor canolig, cyn disgyn fymryn yn y tymor hir.
- mae ysmygu a chamddefnyddio alcohol a chyffuriau yn dal yn gymharol uchel yng Nghymru.

2. Anodd rhagweld digwyddiadau

Gall nifer y digwyddiadau gwasanaethau arbennig (hynny yw, argyfyngau nad ydynt yn danau) amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn – bu hyn yn arbennig o amlwg yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt mewn cysylltiad â llifogydd.

Mae hyn yn cael effaith ar y gwasanaeth oherwydd ei fod yn gorfod sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i ymdopi ag amrywiadau mawr yn y galw tra hefyd yn cynnal y gofal ymhob rhan o'r rhanbarth.

Mae hyn yn fater hefyd o nifer o ddigwyddiadau'n digwydd ar yr un pryd, ynghyd â'r amser y mae digwyddiadau'n para ac yn clymu adnoddau am gyfnodau hir.

Digwyddiau gwasanaeth arbennig gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a llifogydd



	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
Eraill	565	598	494	490	447
Llifogydd	170	140	34	313	81
Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd	767	621	461	399	312

Problemau penodol y mae'r Awdurdod yn ceisio eu datrys

3. Llai o arian ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau

Mae gwariant cyhoeddus yng Nghymru yn debygol o gael ei roi dan bwysau cynyddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Ar adeg lansio adroddiad[2] ym mis Ionawr 2015 ar effeithlonrwydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus:

> "Roeddwn i wedi comisiynu'r adroddiad hwn gan nad yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ddiogel rhag y pwysau ariannol difrifol sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus; ac felly rhaid i'r Gwasanaeth gymryd camau ymarferol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd.
>
> Rwy'n gwybod bod y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru wedi cymryd yr agenda hon o ddifrif, ac maen nhw wedi sicrhau rhai arbedion sylweddol yn ddiweddar. Ond, wrth i bwysau ariannol barhau i gynyddu, felly hefyd y bydd yr angen i adolygu pob agwedd ar y gwariant i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol. Mae'n hanfodol bod arweinwyr yn y sector tân yn achub y blaen wrth sicrhau bod mwy o arian yn cael ei arbed."

[2] http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/fire/150122-fire-efficiency-report-cy.pdf
Effeithlonrwydd y Gwasanaeth Tân ac Achub *Adroddiad gan Brif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru*. Hydref 2014, cyhoedddwyd Ionawr 2015.

Ymgynghoriad cyhoeddus – eich barn chi

Mae'r Awdurdod yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus blynyddol ar ei Amcanion Gwella drafft. Wrth ddatblygu cynllun gwella 2015/16 fe wnaeth yr Awdurdod ymgynghori o Hydref 2014 hyd at Ionawr 2015, ac annog pobl i gyflwyno eu barn.

Lluniwyd dogfen ymgynghori o'r enw 'Eich Gwasanaethau Chi, Eich Dewis Chi' i esbonio'r sefyllfa ariannol gyfredol ac i wahodd pobl i ddatgan eu cefnogaeth i un o dri opsiwn posibl ar gyfer ariannu. Roedd pobl yn gallu gwneud hyn drwy fynd drwy ddolen at holiadur electronig ar 'hwb' ymgynghori.

Cafodd y cyhoedd wybod am yr ymgynghoriad naill ai yn uniongyrchol, drwy'r cyfryngau cymdeithasu a thrwy sylw yn y wasg. Hefyd, darparwyd sesiynau briffio wyneb yn wyneb i'r chwe chyngor sir yn yng Ngogledd Cymru.

Daeth 291 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r rheini gan drawstoriad eang o bobl, gyda dosbarthiad cytbwys rhwng gweithwyr y gwasanaeth a phobl eraill.

<u>Opsiwn 1</u>
Parhau i rewi'r gyllideb flynyddol tan 2019/20 a gwneud £3.3 miliwn o doriadau (10%) i'r gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru. Mewn geiriau eraill, byddai cynghorau sir lleol yn talu'r un faint ag y maent wedi ei dalu ers 2010, hyd yn oed petai hynny'n golygu cau gorsafoedd tân, cael gwared ar injanau tân a gostwng nifer y gweithwyr.

O'r 291 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 34 (12%) yn cefnogi'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2

Dilyn cyngor Llywodraeth Cymru ar y pryd a thorri'r gyllideb flynyddol yr un ganran o leiaf ag a dorrir o'r cyllid canolog (y "setliad llywodraeth leol") y mae awdurdodau lleol yn ei gael gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r opsiwn llymaf, sy'n debygol o ofyn am dorri mwy na 10% o'r gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru. Mewn geiriau eraill, byddai'r cynghorau sir lleol yn talu llai nag y maent wedi ei dalu ers 2010, hyd yn oed petai hynny'n golygu cau mwy fyth o orsafoedd tân, cael gwared ar fwy fyth o injanau tân a thorri mwy fyth ar y gweithlu.

O'r 291 o ymatebion a ddaeth, roedd 14 (5%) yn cefnogi'r opsiwn hwn.

Opsiwn 3

Cynyddu cyllideb flynyddol yr Awdurdod 2% ar gyfartaledd bob blwyddyn tan 2019/20, ac osgoi gwneud £3.3 miliwn o doriadau (10%) i wasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru. Mewn geiriau eraill, efallai y byddai'r cynghorau sir lleol yn talu mwy nag a wnaethant ers 2010 i amddiffyn gwasanaethau tân ac achub rheng flaen, ond gan sicrhau na fyddai hyn yn cynyddu eu cyfraniadau yn fwy na'r hyn sy'n cyfateb i £1 y pen yn ychwanegol am bob unigolyn sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

O'r 291 o ymatebion a ddaeth, roedd 235 (81%) yn cefnogi'r opsiwn hwn.

Roedd 8 ymateb arall (3%) heb ddweud yn benodol pa opsiwn yr oeddent yn ei ffafrio.

Roedd un ymateb yn arbennig o awyddus i bwysleisio gwerth cynnwys cynrychiolwyr cymunedau a phobl o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig wrth gynllunio, dylunio, comisiynu a darparu gwasanaethau. Rydym yn cytuno, ac er ein bod ers sawl blwyddyn, yn mynd ati'n benodol i dargedu gwaith ar y cyd â sefydliadau yn y trydydd sector a rhai eraill sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau o bobl, rydym yn cydnabod y gallem fod yn gwneud rhagor i ddangos gwerth ein perthynas â'r gwahanol grwpiau o bobl. Rydym felly wedi manteisio ar y cyfle i gomisiynu prosiect ymchwil manylach i edrych ar y modd yr ydym wedi ymgysylltu â phobl Gogledd Cymru yn y gorffennol a'r posibiliadau o wneud hynny yn y dyfodol.

Amcan Gwella 1

Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.

Pam y dewiswyd hyn yn amcan?

Oherwydd bod cadw pobl yn ddiogel yn ganolog i'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Diogelwch pobl yng Ngogledd Cymru yw'r prif beth sydd dan sylw ganddo, ond mae hefyd yn gwneud llawer mwy o synnwyr i atal digwyddiadau rhag digwydd yn hytrach na dim ond ymateb iddynt bob tro y maent yn digwydd.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyflwyno Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim[3] i drigolion Gogledd Cymru, ond mae demograffeg Gogledd Cymru a'r ymddygiadau sydd wedi eu nodi yn golygu y bydd dal angen gwaith ataliol er mwyn aros gyfuwch, a bydd angen i'r gwasanaethau ymateb barhau i fod ar gael i ddelio â methiannau a'r damweiniau annisgwyl neu'r rhai nad oes wir fodd eu hosgoi. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Awdurdod wedi atgoffa pobl mai gwell atal nag ymladd tanau, ac mae'n dal i gredu hynny.

Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod fandad gwirioneddol i weithio yn y cyfeiriad hwn – mae'r Rhaglen Lywodraethu sydd gan Lywodraeth Cymru yn nodi ei hymrwymiadau ei hun ar gyfer gwella diogelwch cymunedol, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn ei Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 Ymlaen

Pa ganlyniad a ddisgwylir?

Mae pobl yn disgwyl bod yn ddiogel gartref. Gyda'r gefnogaeth a'r cyngor cywir, gall pobl eu hamddiffyn eu hunain rhag tanau damweiniol trwy atal tân rhag cychwyn yn y lle cyntaf a thrwy wybod sut i ymateb yn sydyn a chywir os bydd un yn digwydd.

Pan fo hynny wedi methu, dylai pobl fod yn hyderus y bydd y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'w hachub ac i gyfyngu ar y difrod i'w heiddo.

[3] Yn dilyn gostyngiad yn y grant gan Llywodraeth Cymru ar gyfer Lleihau Risg Cymunedol, bu raid i'r Awdurdod ddiwygio ei darged o gynnal 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref y flwyddyn i lawr i 20,000.

Amcanion Gwella'r Awdurdod 2015/16

Pa gamau newydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2015-16?

1. Parhau i geisio cael rhagor o sefydliadau partneriaethol i gydweithio â'r Awdurdod mewn perthynas â lleihau nifer ac effaith tanau damweiniol mewn cartrefi.
2. Ceisio cynnal 20,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn ystod y flwyddyn, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd fwyaf agored i berygl, gydag o leiaf 30% o'r archwiliadau'n cael eu cynnal yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni.
3. Monitro effaith larymau mwg â chyswllt mewn anheddau lle mae yna systemau gofal monitro o bell.
4. Adolygu'r modd y mae anafiadau tân yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gymharol, a honno o safon uchel, ar gael.

Beth yn benodol yr adroddir yn ei gylch i'r cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn?

<u>Allbynnau</u>

- Nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhelir, gyda tharged o 20,000 yn ystod y flwyddyn.
- Canran yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhelir o ganlyniad i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner inni, gyda tharged o leiaf 30% o'r holl rai a gynhelir.

<u>Canlyniadau</u>

- Nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â'r blynyddoedd a fu ac mewn ardaloedd eraill.
- Nifer yr anafiadau (yn enwedig yn y categorïau mwy difrifol) a gafwyd mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â'r blynyddoedd a fu ac mewn ardaloedd eraill.
- Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a lwyddodd i ddianc yn ddianaf heb orfod cael cymorth criw tân i wneud hynny o'i gymharu â'r blynyddoedd a fu.

Amcan Gwella 2

Ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth tan 2019/20, ond ceisio ffyrdd o sicrhau nad yw'r gost o wneud hynny yn ychwanegu mwy na'r hyn sy'n cyfateb i £1 y pen y flwyddyn yn ychwanegol i'r gyllideb refeniw.

Pam y dewiswyd hyn yn amcan?

Gyda rheolaeth a chynllunio ariannol gofalus, roedd yr Awdurdod wedi gallu osgoi cynyddu ei gyllideb flynyddol rhwng 2010/11 a 2014/15 drwy wneud arbedion a dibynnu ar gronfeydd ariannol wrth gefn.

Roedd ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod yn 2014 yn esbonio'r sefyllfa ariannol heriol a dyhead yr Awdurdod i barhau i gwrdd â galw'r cyhoedd am wasanaethau a chadw ei gostau i lawr ar yr un pryd. Roedd 81% o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid amddiffyn gwasanaethau tân ac achub, gan gynyddu'r gyllideb os oes angen ond gan sicrhau na ddylai unrhyw gynnydd yn y swm a godir ar y cynghorau sir bob blwyddyn fod yn uwch na'r hyn sy'n cyfateb i £1 yn ychwanegol am bob unigolyn sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

Pa ganlyniad a ddisgwylir?

Bod yr Awdurdod yn gallu cadw lefel bresennol ei wasanaethau (hynny yw, heb gau gorsafoedd tân na chael gwared ar beiriannau tân) gyda £31,885,843 o gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16, sy'n cyfateb i tua £46 y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru.

Amcanion Gwella'r Awdurdod 2015/16

Pa gamau newydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2015-16?

1. Parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y cynnydd yn y gyllideb mor fach ag y bo modd, a chanfod arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth.
2. Strategaeth Adnoddau Gweithredol, i gynnwys canfod a recriwtio o fewn amrywiaeth o fodelau staffio.
3. Parhau i edrych ar gyfleoedd i arbed arian drwy gydweithredu a chydweithio.

Beth yn benodol yr adroddir yn ei gylch i'r cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn?

Adroddiadau'r gyllideb a'r wybodaeth ariannol a gyflwynir i'r Awdurdod.

Amcan Gwella 3

Sicrhau bod Gogledd Cymru yn cael y lefel orau o wasanaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoli er mwyn cael y gofal tân ac achub gorau posibl yn yr ardal.

Pam y dewiswyd hyn yn amcan?

Yn ei ymgynghoriad cyhoeddus yn 2012, fe wnaeth yr Awdurdod esbonio rhai o anawsterau darparu gwasanaethau tân ac achub mewn ardaloedd sy'n wledig yn bennaf. Yng Ngogledd Cymru, gorsafoedd tân yn cael ei criwio gan diffoddwyr tân sy'n gweithio ar y system RDS yw'r rhan fwyaf o orsafoedd, gydag aelodau'r criwiau'n derbyn tâl cadw blynyddol a ffioedd am droi allan at ddigwyddiadau.

Mae mwyafrif helaeth staff y system RDS yn gwbl ymroddedig i'w gwaith, ond mae'n dod yn fwyfwy anodd i ddenu a chadw staff sy'n gallu darparu gofal tâl a gwneud swydd lawn amser gyda'u prif gyflogwr. Roedd y system ddyletswydd hon yn gweddu'n dda iawn i'r cenedlaethau a fu gan fod pobl fel arfer yn aros o fewn eu cymunedau heb deithio ymhell i weithio na hamddena, a gallai cwmnïau fforddio cyflogi llawer o staff. Ond bellach, mae'r prif gyflogwyr dan bwysau i weithredu gyda chyn lleied o weithwyr ag y bo modd, gan ei gwneud yn llai tebygol y gallant fforddio caniatáu i'w staff adael eu lle gwaith i fynd at argyfwng ar ran y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Yn y blynyddoedd diweddar mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu system gylchrestru ar orsafoedd amser cyflawn, ac mae wedi treialu contract newydd ar gyfer diffoddwyr tân rhan amser sy'n gwarantu 21 awr o leiaf o waith yr wythnos, a hynny fel dewis gwahanol i'r contract traddoddiadol ar gyfer y System RDS.

Gan gymryd cynaliadwyedd a fforddiadwyedd gwasanaethau yn y tymor hir fel egwyddorion arweiniol, mae'r Awdurdod yn cynnig y dylai'r gwaith o ganfod opsiynau amgen addas ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru barhau i ddatblygu.

Amcanion Gwella'r Awdurdod 2015/16

Pa ganlyniad a ddisgwylir?

Gwasanaeth tân ac achub, a hwnnw'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy, ac yn gallu parhau i ymdopi gyda lefelau galw sy'n amrywio ac yn anodd eu rhagweld.

Pa gamau newydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2015-16?

1. Ceisio ystyried a mabwysiadu gwahanol ddulliau o ddarparu gofal tân.
2. Fel rhan o'r strategaeth adnoddau, ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cynllun prentisiaethau.
3. Mynd ati i gynllunio'r gweithlu, a chanfod strategaethau ar gyfer lleihau costau.

Beth yn benodol yr adroddir yn ei gylch i'r cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn?

Gwerthuso'r contractau newydd, ac adrodd am gynnydd o'i gymharu â'r camau gweithredu uchod.

Atodiad

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys gwybodaeth gefndir ychwanegol ynglŷn â'r Awdurdod, y ddyletswydd i wella'n barhaus, a gwybodaeth gyffredinol arall.

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Ei rôl yw cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol, cymeradwyo ei Gynlluniau i Leihau Risg a Gwella, cymeradwyo ei gyllidebau refeniw a chyfalaf a'r cyfraniad gan y cynghorau cyfansoddol, monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau diwygiedig neu atodol.

Mae **Panel Gweithredol** yr Awdurdod yn cynnwys 14 o aelodau pleidleisiol, sef Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a dau aelod yr un wedi eu dethol o blith aelodau pob un o'r chwe Awdurdod cyfansoddol.

Mae **Pwyllgor Archwilio** yr Awdurdod yn cynnwys yr 14 o aelodau pleidleisiol nad ydynt ar y Panel Gweithredol. Mae gan y pwyllgor hwn ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun.

Mae **Pwyllgor Safonau** yr Awdurdod yn cynnwys 4 o aelodau annibynnol a 2 aelod o'r Awdurdod.

Rôl y **Clerc a'r Swyddog Monitro** yw sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu gweinyddu yn unol â'r deddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol, ymdrin â materion y côd ymddygiad, y trefniadau cyffredinol ar gyfer llywodraethu a democratiaeth, a materion cyfreithiol a gweithdrefnol.

Rôl y **Trysorydd** yw darparu cyngor ariannol ynglŷn â materion refeniw a chyllid cyfalaf, buddsoddiadau a llif arian, a hynny er mwyn cadw cyfrifon cywir a chymryd camau rhesymol i atal neu ganfod twyll ariannol neu anghysonderau ariannol. Ef sy'n gyfrifol am lunio Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol â'r arferion cywir er mwyn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'i incwm a'i wariant.

Gorchymyn Cynllun Cyfuno Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru 1995 a sefydlodd yr Awdurdod (i ddisodli hen Frigadau Tân Gwynedd a Chlwyd), gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli a gweinyddu ei faterion ariannol, a diffinio'r ardal y byddai'n gofalu amdani.

Wrth osod ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno ei wariant net i bob awdurdod cyfansoddol cyn diwedd mis Rhagfyr, ac yna, cyn 15fed Chwefror, bydd yn rhoi gwybod faint yn union fydd swm y cyfraniad i'w dalu gan yr awdurdod hwnnw yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae gwybodaeth fanwl am rôl yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â'r canllawiau cyffredinol sy'n berthnasol, ar gael yn y Rheolau Sefydlog (sydd ar gael ar y wefan yn www.gwastan-gogcymru.org.uk neu drwy wneud cais amdanynt).

Mae dyletswyddau a phwerau penodol yr Awdurdod wedi eu rhagnodi mewn ystod o ddeddfwriaeth a rheoliadau, ond dyma'r rhai allweddol:

Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 – mae'n pennu mai dyletswyddau craidd Awdurdod Tân ac Achub yw:

- **Hyrwyddo diogelwch tân yn ei ardal**. Mae hyn yn cynnwys gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer:

  Darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i bobl ynglŷn â ffyrdd i atal tanau a sut i osgoi bod yn rhywun sy'n dioddef tân.

  Rhoi cyngor (ar gais) ynglŷn â ffyrdd i atal tanau a chyfyngu ar eu lledaeniad mewn adeiladau ac eiddo arall; y ffyrdd o ddianc o adeiladau ac eiddo arall os oes tân.

- **Ymdrin â galwadau am gymorth**. Mae hyn yn cynnwys cael yr wybodaeth angenrheidiol ac anfon staff i ddelio ag achosion o dân, damweiniau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau penodol eraill.

- **Diffodd tanau yn ei ardal**. Mae hyn y cynnwys darparu'r staff (a'u hyfforddiant), y gwasanaethau a'r offer i ateb gofynion arferol diffodd tanau ac amddiffyn bywyd ac eiddo os oes tân.

- **Achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd yn ei ardal**. Mae hyn yn cynnwys darparu'r staff (a'u hyfforddiant), y gwasanaethau a'r offer i ateb gofynion arferol amddiffyn pobl rhag niwed difrifol (i'r graddau y mae'n ystyried hynny'n rhesymol) mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.

- **Ymdrin ag argyfyngau eraill.** Byddai natur, maint ac ardal y gofyniad hwn yn cael ei osod gan y llywodraeth, ac fe allai roi gofyniad neu ganiatâd i'r Awdurdod sicrhau'r staff (a'u hyfforddiant), y gwasanaethau a'r offer ar gyfer ymdrin ag argyfyngau heblaw tanau a damweiniau traffig ar y ffyrdd.
- **Ymateb i ddigwyddiadau eraill.** Gallai'r Awdurdod gymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn briodol mewn perthynas â digwyddiad neu sefyllfa a allai beri niwed i bobl neu'r amgylchedd, gan gynnwys bywyd ac iechyd planhigion ac anifeiliaid.

Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – mae hwn yn rhoi pwerau ac yn gosod dyletswyddau ar Awdurdod Tân ac Achub fel awdurdod gorfodaeth at ddibenion archwilio a gorfodi diogelwch tân ar safleoedd perthnasol yn ei ardal.

Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 – mae'n diffinio pwerau a dyletswyddau categorïau penodol o gyrff lleol i lunio cynlluniau argyfyngau posibl ac ymateb i ddigwyddiadau neu sefyllfaoedd brys sy'n bygwth difrod difrifol i les dynol neu'r amgylchedd, a rhyfel neu derfysgaeth sy'n bygwth difrod difrifol i ddiogelwch y Deyrnas Unedig.

GWNEUD GWELLIANNAU A LLEIHAU RISG

Daeth y **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** i rym ar Ebrill 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Gwella Cymreig (cynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) osod amcanion gwella a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflawni.

Gall amcanion gwella fod yn unrhyw beth y gellir dangos eu bod yn gwella'r hyn y mae'r Awdurdod Gwella Cymreig yn ei wneud (ei 'swyddogaethau') a hynny o safbwynt o leiaf un o'r saith agwedd ar wella, sef:

1. effeithiolrwydd strategol;
2. ansawdd gwasanaeth;
3. argaeledd gwasanaeth;
4. tegwch;
5. cynaliadwyedd;
6. effeithlonrwydd; ac
7. arloesedd.

Mae Awdurdodau Tân ac Achub, fel Awdurdodau Gwella Cymreig, wedi cael eu canllawiau penodol eu hunain yn gysylltiedig â Rhan 1 o'r Mesur sy'n ymwneud â gwella.

Bydd eu gweithrediadau yn agored i Asesiad Gwella gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yn gweithredu trwy Swyddfa Archwilio Cymru) a wneir trwy Asesiad Corfforaethol sy'n edrych ymlaen, ac Asesiad Perfformiad sy'n edrych am yn ôl ymhob blwyddyn ariannol.

Mae copi o'r ddogfen arweiniad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/publications/?skip=1&lang=cy

Ymdrechu'n Barhaus i Wella

Mae rôl yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei ddiffinio mewn ystod o gyfreithiau a rheoliadau, ond mae'r Awdurdod yn wastad wedi ceisio gwella a helaethu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, a gwneud mwy na dim ond ateb y gofynion lleiaf.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wella bywydau pobl mewn sawl ffordd wahanol. Mae'r rhain yn cynnwys chwarae ei ran i ofalu bod:

- dinasyddion, gweithwyr ac ymwelwyr yn cael eu diogelu, fel eu bod yn gallu byw bywydau hir ac iach;
- cymunedau cyfan yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu byw bywydau llawn;
- diwylliant, treftadaeth ac iaith yr ardal yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu byw bywydau cyfoethocach;
- dinasoedd, trefi a phentrefi yn cael eu diogelu, fel eu bod yn llefydd sy'n ffynnu yn economaidd ac yn gymdeithasol i bobl fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy;
- y cefn gwlad a'r arfordir yn cael eu diogelu, fel eu bod yn gallu parhau i ddarparu cynefinoedd naturiol a bod yn llefydd sy'n rhoi boddhad i bobl fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy;
- cartrefi unigol yn cael eu diogelu, fel bod gan bobl fynediad at dai da a diogel;
- adeiladau cyhoeddus yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu teimlo'n ddiogel pan fyddont yn cynnal busnes yno;
- gweithleoedd yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu teimlo'n ddiogel pan fyddont yn gweithio yno;
- rhwydweithiau cludiant yn cael eu diogelu, fel bod pobl a nwyddau'n gallu teithio rhwng llefydd yn rhwydd a diogel;
- yr amgylchedd ac adnoddau'r byd yn cael eu diogelu, fel ein bod yn gadael y byd yn lle gwell.

At hynny, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau ei fod yn:

- peidio â gwastraffu'r arian a'r adnoddau eraill a ymddiriedir iddo;
- cefnogi ei weithwyr i gyflawni eu potensial llawn a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau gydag eraill.

Trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud trefniadau arbennig ar gyfer cefnogi'r gwaith o gyflawni ei strategaethau i leihau risg a gwella.

Trefniadau Llywodraethu

Mae'r Awdurdod ei hun wedi ei drefnu mewn modd sy'n caniatáu i'w 28 o aelodau etholedig gael rhan go iawn mewn cynlluniau strategol, gwneud penderfyniadau, a monitro lefelau perfformiad y gwasanaeth. Mae'r Awdurdod llawn yn cwrdd yn rheolaidd, o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd amlach o'r Panel Gweithredol rhwng yr adegau hynny. Mae ganddo Bwyllgor Archwilio a Phwyllgor Safonau ar wahân, sy'n cwrdd i ystyried materion penodol. At hynny, mae'r Awdurdod yn cael cefnogaeth ei Glerc a'i Drysorydd i weithredu'n gywir. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Caiff y Gwasanaeth ei arwain gan Brif Swyddog Tân, ac yn ei gefnogi mae tîm o brif swyddogion, yr uwch dîm rheoli, arbenigwyr i gynghori, a strwythur trefniadaethol pendant.

Mae strwythur y Gwasanaeth yn dilyn ardaloedd y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth trwy drefniadau cydweithredol penodol gydag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau brys eraill, aelodau o'r fforwm cydnerthedd lleol, y sectorau addysg a gwirfoddol, asiantaethau a chomisiynau penodol a byrddau gwasanaeth lleol. Lle bo'n briodol, gwneir cytundebau ffurfiol ar gyfer rhannu data.

Caiff cynnydd yn erbyn cynlluniau adrannol a phrosiectau penodol, cynlluniau gwasanaeth blynyddol a chynlluniau cyllideb manwl eu monitro a'u hadrodd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, gan gytuno ar wneud addasiadau i gynlluniau yn ystod y flwyddyn lle bo angen.

Darperir prosesau sicrwydd ar wahân trwy archwiliadau mewnol ac allanol, gan gynnwys archwiliadau ariannol.

Trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus

Cydweithio

Mae gwaith ar y cyd â gwasanaethau tân ac achub eraill yn cefnogi amrediad o weithgareddau gwella, yn dwyn ynghyd arbenigedd, ac yn rhannu adnoddau (e.e. caffael cyfarpar ar y cyd, recriwtio diffoddwyr tân amser-cyflawn ar y cyd) lle bo hynny'n briodol, a hynny ar lefel y DU a Chymru.

Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC)

Cafodd Pwyllgor Materion Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ei sefydlu yn 2012 i sicrhau rhagor o waith ar y cyd, cyflenwi gwasanaethau a gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth.

Meysydd Cydweithredol Allweddol y PMC yw:

1. Trefniadau Criwio Cenedlaethol
2. Systemau Cenedlaethol ar gyfer Cyflenwi Diogelwch Cymunedol
3. Prosiect Cyd-Ganolfan y Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Adolygiad Cenedlaethol o Ofal Tân Cenedlaethol
5. Cludiant a Fflyd Genedlaethol
6. Llwyfannau TGCh Cenedlaethol

Gwaith arall ar y Cyd

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd yn cefnogi gwaith ar y cyd ag amrywiaeth o sefydliadau sy'n bartneriaid inni yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio at ddibenion:

- gwireddu ei nodau a'i amcanion ei hun
- cydnerthedd lleol a chenedlaethol
- cefnogi gwelliannau amlasiantaethol drwy Gynlluniau Integredig Sengl.

Datganiad Cyffredinol

Gyda dyfodiad y Mesur Llywodraeth Leol 2009 daeth dyletswydd gyffredinol i Awdurdodau Gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Er na ellid cael dyletswydd absoliwt i wella, mae disgwyl i awdurdodau wneud trefniadau addas ar gyfer gwella ac i osod amcanion realistig, perthnasol ac uchelgeisiol i'w hunain.

Mae gofyn i awdurdodau wneud datganiad cyffredinol yn amlinellu natur eu bwriadau ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth hon, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi cynllun blynyddol i leihau risg a gwella y bu'n ymgynghori yn ei gylch. Cyhoeddir y cynllun hwn cyn gynted a phosibl wedi 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, ac mae'n nodi'r amcanion gwella a'r mesurau cysylltiedig o lwyddiant am y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Unwaith y bydd cytundeb ynglŷn â lefel y cyllid y bydd gan yr awdurdod ar gael (erbyn Chwefror cyn dechrau'r flwyddyn ariannol), dyrennir cyllidebau ar gyfer dibenion penodol. Mae hyn yn cynnwys gwariant refeniw a rhoi'r rhaglen gyfalaf ar waith fesul cam.

Mae cynlluniau adrannol sy'n dangos sut y bydd amcanion lefel uchel yn cael eu cyflawni (gyda thargedau ansoddol cysylltiedig lle bo hynny'n briodol) yn cael eu datblygu erbyn diwedd Mawrth.

Mewn cyfarfodydd bob chwarter trwy gydol y flwyddyn, bydd yr uwch reolwyr yn gwneud y gwaith o fonitro'r gwariant a chwblhau'r amcanion a gynlluniwyd, a hynny er mwyn gallu gwneud unrhyw newidiadau ystod-blwyddyn os oes angen. Darperir adroddiadau cynnydd i'r Awdurdod trwy gydol y flwyddyn. Gwneir asesiadau allanol o'r cynnydd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Darperir crynodeb ynghylch y llwyddiant o ran cyflawni'r amcanion drwy'r Asesiad o Berfformiad y flwyddyn ganlynol, a gyhoeddir erbyn 31 Hydref mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol, a thrwy adroddiad y Trysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub.

GWYBODAETH ARALL

MANYLION CYSYLLTU

Cyfeiriad post: Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Ffôn: 01745 535250
Gwefan: www.gwastan-gogcymru.org.uk

GWYBODAETH YCHWANEGOL

- Daeth y **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** i rym yn Hydref 2004, gan ddod yn lle'r hen Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 1947 yng Nghymru a Lloegr.
  Mae'n egluro dyletswyddau a phwerau Awdurdodau Tân ac Achub i:
  - Hybu diogelwch tân
  - Ymladd tanau
  - Diogelu pobl ac eiddo rhag tanau
  - Achub pobl o ddamweiniau ar y ffyrdd
  - Ymateb i risgiau penodol eraill, megis digwyddiadau cemegol
  - Ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr, megis ymosodiadau terfysgol

- Cyhoeddwyd y **Fframwaith Cenedlaethol o 2012 Ymlaen** gan Lywodraeth Cymru dan adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae'n nodi gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru a'r hyn y gellid ei ddisgwyl ohonynt dros gyfnod y fframwaith.

- Daeth y **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** i rym ar 1af Ebrill 2010. Roedd yn creu cyfundrefn statudol sy'n integreiddio'r broses o wella gwasanaethau lleol yn fwy tymor byr a chynllunio cymunedol mwy tymor hir. Cyhoeddwyd arweiniad penodol ar yr elfen wella (Rhan 1) ar gyfer gwasanaethau tân ac achub gan Llywodraeth Cymru ym Mai 2010.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

- Daeth y **Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012** i rym ar Fai 21ain 2012. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub gyhoeddi eu cynlluniau gwella cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun gwella yn ymwneud â hi.

- **Perfformiad y Flwyddyn Flaenorol** – Mae adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Tân ac Achub i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ymhob blwyddyn ariannol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y mae'r perfformiad yn ymwneud â hi. Mae asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn 2011-12 ar gael yn yr Adran Perfformiad a Gwella ar ei wefan – www.gwastan-gogcymru.uk.

- Daeth y **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** i rym yn Hydref 2006, gan ddisodli 70 darn o gyfraith yn ymwneud â diogelwch tân. Mae'n berthnasol i bob eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y rhannau cymunol o flociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Roedd yn diddymu'r gofyniad i fusnesau fod â thystysgrifau tân ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y sawl sy'n gyfrifol am y safle i ymdrin â diogelwch tân ar y safleoedd hynny.

- Daeth y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn lle dros 100 o ddarnau o gyfraith cydraddoldeb. Daeth y Ddyletswydd Gyffredinol a dyletswyddau penodol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i rym yn Ebrill 2011.

- Mae'r **Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004** yn darparu un fframwaith ar gyfer amddiffyn sifil i argyfyngau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch. Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymatebwyr 'Categori 1' dan y ddeddf.

- **Cangen Tân Llywodraeth Cymru**
  Cafodd y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch tân yng Nghymru ei ddatganoli i Lywodraeth y Cynulliad ar 10 Tachwedd 2004. Mae'r isadran Diogelwch Cymunedol o Lywodraeth y Cynulliad wedi ei lleoli yn Rhyd-y-car, Merthyr Tudful CF48 1UZ. http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/?skip=1&lang=cy

Swyddfa Archwilio Cymru
Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol y mae gofyn iddo/iddi asesu pa mor debygol yw hi y bydd yr Awdurdod yn parhau i wella a ph'un ai yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu yn unol â'r canllawiau perthnasol a ddaeth. Mae archwilwyr hefyd yn gweithio gydag awdurdodau tân trwy Gymru i gyflwyno rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth-am-arian. http://www.wao.gov.uk/

- **Trwydded Atgynhyrchu Gwybodaeth Sector Gyhoeddus**
  Atgynhyrchir unrhyw deunydd sydd yn destun diogelwch Hawlfraint y Goron yn y ddogfen hon o dan Drwydded Rhif C2010002320.

YMYRRYD YN ACHOS METHU NEU BOSIBILRWYDD O FETHU CYDYMFFURFIO

Mae pwerau ymyrryd gan Lywodraeth Cymru:

- dan adran 22 o **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 – Protocol Ymyrryd yn berthnasol.
- dan adran 29 o **Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ni all Gweinidogion Cymreig, ymhob achos heblaw am yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ond ymyrryd wedi iddynt gynnig cefnogaeth wirfoddol i'r Awdurdod dan adran 28 o'r Mesur.

YMGYNGHORIADAU

	Ymgynghoriad	Cyhoeddi	Ar gyfer blwyddyn
Cynllun Lleihau Risg Llawn	haf 2009		
Cynllun Llawn i Leihau Risg a Gwella	haf 2010	Hydref 2010	2011-12
Amcanion Gwella	haf 2011	Hydref 2011	2012-13
Amcanion Gwella	hydref 2012	Mawrth 2013	2013-14
Amcanion Gwella	hydref 2013	Mawrth 2014	2014-15
Cyllid a lefel y Gwasanaethau Tân ac Achub	hydref 2014	Mawrth 2015	2015-16

SUT I GYFRANNU I AMCANION GWELLA YN Y DYFODOL

Mae Adrannau 5 a 6 o'r Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori'n eang cyn dod i benderfyniadau terfynol ynglŷn â gwella.

Mae'r Awdurdod yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus bob blwyddyn pan fydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w amcanion lleihau risg a gwella am y flwyddyn i ddod, a bydd yn gwahodd sylwadau gan unrhyw un sydd â diddordeb yn yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Rhoddir ystyriaeth i bob sylw a ddaw i law, cyn cyhoeddi cynlluniau'r flwyddyn ganlynol yn derfynol.

Os bydd unrhyw un yn dymuno cyfrannu syniadau newydd ynglŷn ag amcanion ar gyfer gwella yn y dyfodol ysgrifennu at y Dirprwy Brif Swyddog ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JJ.